# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)17-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 11 Rhagfyr 2007

**Amser:** 8.30am

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)16-07 (cofnodion drafft) - dydd Mawrth 4 Rhagfyr 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos - BC(3)17-07(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y bydd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn gwneud y datganiadau llafar a ganlyn yn ystod y Cyfarfod Llawn:

Datganiad ar Wasanaethau Eiriolaeth i Blant - dydd Mawrth

Datganiad ar benodi Comisiynydd Plant - dydd Mercher.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y caiff cynnig ei gyflwyno i atal Rheolau Sefydlog, a hynny i gyflwyno cynigion i sefydlu ac ethol Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy ddydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 11 a 12 Rhagfyr 2007.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor na chaiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn 5pm ar ddydd Mercher ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth - BC(3)17-07(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor yr amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 wythnos ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth - BC(3)17-07(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor y caiff y dadleuon a ganlyn eu trefnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn:

Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, Cynllunio Rheilffyrdd y Dyfodol - i'w threfnu ar gyfer 23 Ionawr 2008.

Dadl ar Adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid a'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Glwy'r Traed a'r Genau - i'w threfnu ar gyfer 30 Ionawr 2008.

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**Papur gan Wasanaeth y Pwyllgorau: Dadleuon ar Adroddiadau Pwyllgorau - BC(3)17-07(p4)**

3.9 Bu'r Pwyllgor yn trafod y papur ar strwythur dadleuon y Cyfarfod Llawn ar adroddiadau pwyllgorau. Dywedodd y Cynulliad y byddai'r cynnig yn golygu y caiff dadleuon eu trefnu ar ôl i'r Llywodraeth ymateb i'r adroddiad. Bydd y Gweinidog yn siarad ddwywaith yn ystod y ddadl, fel yr ail siaradwr a'r siaradwr olaf ond un. Cytunodd y rheolwyr busnes ar y cynnig.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Amserlen arfaethedig ar gyfer Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008 mewn perthynas â Thai Fforddiadwy - BC(3)17-07(p5)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig i'r Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy drafod '"Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 5) 2008'". Dywedodd y Cadeirydd y caiff yr amserlen ei osod gerbron y Cynulliad. Nododd y Pwyllgor Busnes y caiff y Pwyllgor ei sefydlu a'i ethol ar 12 Rhagfyr 2007.

**Papur ar y datblygiadau diweddaraf o ran hynt deddfwriaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol - BC(3)17-07(p6)**

4.2 Nododd y Pwyllgor y papur ar hynt deddfwriaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff ac Adroddiad y Pwyllgor - BC(3)17-07(p7)**

4.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn Arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff ac Adroddiad y Pwyllgor.

**5. Trefniadau o ran cyflwyno eitemau busnes**

# Papur ar y diwrnodau o ran cyflwyno eitemau busnes ar gyfer y Cyfarfod Llawn yn dilyn toriad y Nadolig - BC(3)17-07(p8)

5.1 Nododd y Pwyllgor fod angen neilltuo dyddiau penodol ar gyfer cyflwyno eitemau busnes yn ystod toriad y Nadolig, a hynny i baratoi ar gyfer busnes yn ystod y ddwy wythnos gyntaf yn dilyn y toriad. Cytunodd y Pwyllgor ar 8 ac 11 Ionawr 2008.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**